**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 17 Mawrth 2022 am 11.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | R Francis-Davies | L S Gibbard |
| E J King | A S Lewis | R V Smith |
| A H Stevens | M Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): -

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): D H Hopkins, A Pugh

---

## 133. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr L S Gibbard a A H Stevens fudd personol a rhagfarnol â chofnod 138 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

2) Datganodd y Cynghorydd R V Smith fudd personol a rhagfarnol â chofnod 138 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a dywedodd ei fod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

3) Datganodd y Cynghorwyr M C Child, R Francis-Davies a R V Smith fudd personol â chofnod 142 "Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Hamdden 2020/2021".

4) Datganodd y Cynghorydd M C Child fudd personol a rhagfarnol â chofnod 150 "Lleoliad arfaethedig ar gyfer cyfleusterau Chwarae awyr agored yn West Cross” a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

## 134. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2022.

## 135. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### 1) Aelodau’r Cabinet yn tynnu’n ôl o’r Etholiadau Llywodraeth Leol ar 5 Mai 2022

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Cynghorwyr Mark C Child a Mark Thomas wedi penderfynu tynnu’n ôl o’r etholiadau sydd i ddod ym mis Mai 2022. Diolchodd a thalodd deyrnged iddynt am eu cyfraniad rhagorol ac ymroddedig i Gyngor Abertawe a'r Cabinet.

## 136. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 137. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 138. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod  Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Craigfelen | Dylan Williams |
| 2) | Ysgol Gynradd Dynfant | Y Cyng. Louise Gibbard |
| 3) | Ysgol Gynradd Penyrheol | Nicola Matthews |
| 4) | Ysgol Gynradd Gadeiriol San Joseff | Caroline Thraves |
| 5) | Ysgol Gynradd Heol y Teras | Kayleigh Danter<br>Folake Ibiwoye |
| 6) | Ysgol Gyfun Gatholig Rufeinig Esgob Vaughan | Daniel Minster |

## 139. Rhaglen Isadeiledd yn yr Ysgol Hwb.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyo'r Cyfraniad Refeniw i'r Gwariant Cyfalaf (CRGC) ar gyfer cyllideb ychwanegol ar gyfer rhaglen o'r Gronfa Arloesedd Ysgolion, Arian wrth gefn yr Isadeiledd Hwb a throsglwyddo cyllideb gyfalaf y Rhwydwaith Ysgolion i Raglen Isadeiledd yn yr Ysgol Hwb i sicrhau bod costau'r rhaglen yn cael eu talu ar gyfer 2021/22.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r CRGC a'r goblygiadau ariannol ym mharagraff 4 o'r adroddiad hwn.

## 140. Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 3 2021/22.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu'r Perfformiad Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2021-2022.

**Penderfynwyd:**

1) Caiff canlyniadau perfformiad Chwarter 3 2021/22 eu cymeradwyo a'u defnyddio i lywio penderfyniadau gweithredol ar ddyrannu adnoddau a, lle y bo'n berthnasol, dylid cymeradwyo camau unioni i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

## 141. Rhaglen Grant Cyfleusterau I'r Anabl A Grant Gwella 2022/23

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn darparu manylion y Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r Grant Gwella ac yn ceisio cymeradwyaeth i gynnwys cynlluniau yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23. Cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf), i ymrwymo ac awdurdodi cynlluniau yn ôl y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

2) Y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r Grant Gwella, fel y'i nodwyd, gan gynnwys ei goblygiadau ariannol, ac y dylid ei chynnwys yng Nghyllideb Gyfalaf 2022/23.

## 142. Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Hamdden 2020/2021.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad gwybodaeth a oedd yn darparu manylion am weithdrefnau partneriaeth cyfleusterau allweddol ym mhortffolio'r Gwasanaethau Diwylliannol.

## 143. Adroddiad Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf 2022/23.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyo'r cynlluniau i'w hariannu drwy'r Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Caiff y cynlluniau cynnal a chadw cyfalaf arfaethedig a restrir yn Atodiad A i'r adroddiad eu cymeradwyo.

2) Caiff y cynlluniau a'u goblygiadau ariannol fel a nodwyd yn Atodiad C yr adroddiad eu hawdurdodi a'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

## 144. Dyraniad Cyfalaf i Asedau Isadeiledd Priffyrdd 2022-23.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella’r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad i gadarnhau'r Rhaglen Waith Gyfalaf ar gyfer asedau'r isadeiledd priffyrdd.

**Penderfynwyd:**

3) Caiff y dyraniadau dangosol arfaethedig, ynghyd â'r Goblygiadau Ariannol a nodir yn Atodiad A yr adroddiad, eu cymeradwyo a'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

4) Caiff awdurdod ei ddirprwyo i Bennaeth y Gwasanaeth Priffyrdd a Chludiant gyda chydsyniad Aelod y Cabinet dros Wella’r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd i flaenoriaethu, cwblhau a chlustnodi arian i'r cynlluniau priodol yn unol â'r ymagwedd flaenoriaethu a nodwyd yn yr adroddiad.

## 145. Buddsoddiad Cyfalaf Preswyl Mewnol y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i'r Buddsoddiad Cyfalaf brynu eiddo i ddatblygu ateb preswyl mewnol i Gyngor Abertawe a chydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf) i ymrwymo ac awdurdodi cynllun i'r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

5) Y buddsoddiad cyfalaf ar gyfer ateb preswyl mewnol a'i oblygiadau ariannol ac mae'n ychwanegu'r cynllun a nodir ym mharagraff 3 yr adroddiad i'r rhaglen gyfalaf.

## 146. Trefniadau Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu (awdurdodau lleol) Cymru.  Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru a Maethu Cymru - Gwella Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Galluogi.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynigion ar gyfer datblygu llywodraethu a dulliau galluogi Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru gan ei fod yn cymryd

cyfrifoldeb dros Maethu Cymru. Roedd hefyd yn ceisio sicrhau cytundeb i lofnodi Cytundeb y Cydbwyllgor ar gyfer y Cydbwyllgor arfaethedig.

**Penderfynwyd:**

1) Bydd y cyngor yn llofnodi Cytundeb y Cydbwyllgor ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru sydd ynghlwm yn Atodiad C yr adroddiad ac yn awdurdodi'r Prif Swyddog Cyfreithiol i ymrwymo i'r cytundeb ar ran y cyngor.

2) Penodi Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant a Theuluoedd yn gynrychiolydd y cyngor ac yn aelod â phleidlais ar y cydbwyllgor.

## 147. Gwahardd y cyhoedd: -

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 148. Gwaredu tir priffyrdd yn y Mwmbwls, Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ac yn ceisio ystyried opsiynau diwygiedig mewn perthynas â'r defnydd o'r tir a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

## 149. Awdurdodi Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Prosiect Hwb Cymunedol Cefn Hengoed.

Cyflwynodd Aelodau’r Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth a Gwella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf) i ymrwymo i gynlluniau a’u awdurdodi yn y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

## 150. Lleoliad arfaethedig ar gyfer cyfleusterau chwarae awyr agored yn West Cross

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio ystyried man agored o fewn West Cross, er mwyn elwa o welliannau chwarae yn yr awyr agored fel rhan o Raglen Buddsoddi mewn Chwarae Cyfalaf 2021/22

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.55 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 17 Mawrth 2022 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 22 Mawrth 2022 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 23 Mawrth 2022 |